# Protocol ymateb i argyfwng

## Diogelwch Ar-lein Mesurau Diogelwch Ychwanegol

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 9 Mehefin 2026
Am ragor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch I ofcom.org.uk.

# 1. Trosolwg

1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig, sy'n goruchwylio sectorau sy’n cynnwys telathrebu, post, darlledu a radio. O dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y Ddeddf), Ofcom hefyd yw rheoleiddiwr y DU ar gyfer diogelwch ar-lein.

1.2 Gwaith Ofcom yw gwneud gwasanaethau ar-lein yn fwy diogel i'r bobl sy'n eu defnyddio, yn enwedig plant. Mae'n ofynnol i ddarparwyr y gwasanaethau ar-lein rheoleiddiedig (darparwyr) gael systemau effeithiol ar waith i ddiogelu pob defnyddiwr rhag cynnwys anghyfreithlon, ac mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig y mae plant yn debygol o gael mynediad iddynt gymryd camau i atal a diogelu plant rhag dod ar draws cynnwys sy'n niweidiol i blant. O dan y Ddeddf, mae gan Ofcom ddyletswyddau i gynhyrchu dogfennau rheoleiddio a chanllawiau i gynorthwyo darparwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Codau Ymarfer (Codau) sy'n nodi'r mesurau a argymhellir i ddarparwyr gydymffurfio â dyletswyddau perthnasol.

1.3 Yn ein Hymgynghoriad ar Fesurau Diogelwch Ychwanegol Mehefin 2025 (Ymgynghoriad Mehefin 2025), gwnaethom ymgynghori ar nifer o fesurau diogelwch ychwanegol i'w cynnwys yn ein Codau, gan gynnwys y dylai rhai darparwyr gael protocol ymateb i argyfwng ar waith.

1.4 O ystyried y cyflymder y gall niwed ar-lein gynyddu yn ystod argyfwng, a'r risgiau difrifol y gall hyn eu creu i ddiogelwch cyhoeddus, rydym wedi penderfynu cyflymu ein gwaith ar y mesurau ymateb i argyfwng hyn i sicrhau y gall gwasanaethau ddechrau cymryd camau priodol mewn perthynas â'r mesurau hyn.

1.5 Ar ôl ystyried adborth rhanddeiliaid yn ofalus, rydym wedi penderfynu cynnwys y mesurau protocol ymateb i argyfwng hyn yn ein Codau.

1.6 O dan y mesurau hyn, dylai darparwyr gwasanaeth baratoi a chymhwyso protocol i liniaru a rheoli'r risgiau sy'n deillio o gynnydd sylweddol mewn cynnwys anghyfreithlon perthnasol a/neu gynnwys sy'n niweidiol i blant ar eu gwasanaethau. Dylai'r protocol hefyd, lle bo'n berthnasol, fynd i'r afael â'r risg gynyddol y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflawni neu hwyluso trosedd â blaenoriaeth yn ystod argyfwng.

1.7 Rydym hefyd wedi penderfynu nodi, pan benderfynir bod argyfwng yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd, dylai darparwyr gwasanaeth penodol sefydlu sianel gyfathrebu uniongyrchol y gall asiantaethau gorfodi'r gyfraith rannu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag argyfwng drwyddi.

1.8 Fel y nodwyd ym Mhennod 3: 'Ymateb i argyfwng' o’r adroddiad llawn, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall cynnwys anghyfreithlon a/neu gynnwys sy'n niweidiol i blant sy'n deillio o argyfyngau beri risg uniongyrchol i bobl ar-lein ac all-lein. Yn ystod argyfwng, efallai y bydd cynnydd ar wasanaethau o ran nifer y cynnwys anghyfreithlon a/neu gynnwys sy'n niweidiol i blant. Efallai y bydd cynnydd hefyd yn y risgiau a gyflwynir gan gynnwys o'r fath, gan gynnwys y risg y bydd gwasanaethau’n cael eu defnyddio i gyflawni neu hwyluso trosedd â blaenoriaeth. Bwriad y mesurau yw helpu i liniaru a rheoli'r risgiau sy'n deillio o gynnydd sylweddol mewn cynnwys perthnasol sy'n ymddangos ar wasanaethau yn ystod argyfwng.[1]

[1] Gweler Pennod 3: 'Ymateb i argyfwng' am dystiolaeth a rhesymu.

1.9 Bwriedir iddynt hefyd sicrhau y gall darparwyr gwasanaeth o fewn cwmpas weithredu'n brydlon ac yn effeithiol yn ystod argyfwng. Mae cael protocol ymateb i argyfwng yn sicrhau bod gan wasanaethau gynlluniau wrth gefn ar waith sy'n galluogi gweithredu cyflym a chydgysylltiedig pan fydd argyfwng yn codi. Heb hyn, gall darparwyr golli amser gwerthfawr yn nodi argyfwng, ymgynnull personél, a datblygu ymateb priodol. Ein nod yw y bydd defnyddio tîm ymateb i argyfwng traws-swyddogaethol, dros dro yn gyflym yn gwella'r cyflymder y mae materion ar draws y gwasanaeth yn cael eu nodi a'u datrys.

1.10 Rydym o'r farn y bydd cael sianel gyfathrebu gorfodi'r gyfraith bwrpasol yn ystod argyfwng yn gwella cyflymder a dibynadwyedd cyfnewid gwybodaeth, gan gefnogi lliniaru risg yn gyflymach ac ymdrechion diogelwch cyhoeddus mwy cydgysylltiedig.

1.11 Yn olaf, ystyriwn ei bod yn bwysig bod protocolau ymateb i argyfwng yn esblygu ac yn gwella dros amser. Mae ein mesurau'n nodi y dylai darparwyr gynnal a chadw cofnod o'r dadansoddiad ôl-argyfwng, a ddylai gynnwys dadansoddiad o effeithiolrwydd y protocol. Byddai hyn hefyd yn golygu y gallwn ofyn am yr adroddiad hwn yn ffurfiol os oes angen ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio.

1.12 Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r rhesymeg dros ein penderfyniadau mewn perthynas ag ymateb i argyfwng. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein penderfyniadau mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r mesurau diogelwch ychwanegol eraill a gynigiwyd yn ein Hymgynghoriad ym Mehefin 2025 yn Hydref 2026.

**Beth yw argyfwng?**

Rydym wedi diffinio argyfwng fel "sefyllfa anghyffredin lle mae bygythiad difrifol i ddiogelwch y cyhoedd yn y DU", sy'n debygol iawn o fod wedi deillio o gynnydd sylweddol mewn cynnwys perthnasol neu ei fod wedi achosi cynnydd sylweddol mewn cynnwys perthnasol.

Yn ystod argyfwng, gall rhai mathau o gynnwys anghyfreithlon a/neu gynnwys sy'n niweidiol i blant ledaenu'n gyflym ar-lein. Mewn rhai achosion, gall hyn greu risgiau sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd yn y DU. Mae tystiolaeth o argyfyngau blaenorol wedi dangos sut mae troseddwyr yn defnyddio gwasanaethau ar-lein mewn amrywiaeth o ffyrdd i gyflawni gweithgareddau anghyfreithlon fel annog casineb hiliol neu grefyddol, gwneud bygythiadau, neu annog trais. Nid yn unig y gall hyn arwain at gynnydd yn nifer y cynnwys anghyfreithlon sy'n cylchredeg ar-lein ond gall arwain at drais all-lein.

Mae argyfyngau o'r fath yn eithriadol, ac mae hyn yn golygu efallai na fydd mesurau cymedroli arferol darparwyr gwasanaethau ar-lein yn ddigonol yn yr amgylchiadau hyn.

**Pa benderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud?**

| Nifer o fewn Codau | Mesurau | Pwy ddylai weithredu hyn |
|---|---|---|
| **ICU C15** | Dylai'r darparwr baratoi a chymhwyso protocol ymateb i argyfwng mewnol. Dylai hefyd gynnal a chofnodi dadansoddiad ôl-argyfwng. | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sydd â risg ganolig a darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr o unrhyw faint sydd â risg uchel ar gyfer niwed perthnasol. |
| **PCU C11** | | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr y mae plant yn debygol o gael mynediad iddynt sydd â risg ganolig a darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr o unrhyw faint y mae plant yn debygol o gael mynediad atynt ac sydd â risg uchel o niwed perthnasol. |
| **ICU C16** | Dylai darparwyr weithredu sianel gyfathrebu bwrpasol lle gall asiantaethau gorfodi’r gyfraith gysylltu â nhw ar faterion sy'n gysylltiedig ag argyfwng yn ystod argyfwng. | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sydd â risg ganolig neu risg uchel ar gyfer niwed perthnasol. |
| **PCU C12** | | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr y mae plant yn debygol o gael mynediad atynt sydd â risg ganolig neu risg uchel ar gyfer niwed perthnasol. |

## Camau nesaf

1.13 Bydd y diwygiadau i'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a'r Cod Ymarfer Diogelu Plant ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a ddisgrifir yn y datganiad hwn yn cael eu gweithredu ar wahân.

1.14 Rydym wedi cyhoeddi fersiynau cyfunol drafft o'r Codau perthnasol sy'n ymgorffori'r diwygiadau drafft y mae Ofcom yn bwriadu eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol.

1.15 Bydd eu gweithredid yn amodol ar broses seneddol, a bydd y gwelliannau’n dod i rym unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Byddwn yn darparu diweddariadau ar amseriad y broses hon.